E-bost
10 Mai 2024

Annwyl Reolwr Recriwtio,

Rwyf yn ysgrifennu i fynegi fy niddordeb yn swydd Dadansoddwr Gweithrediadau Taliadau Afreolaidd yn Morgan Stanley a hysbysebwyd ar fwrdd swyddi Prifysgol Caerdydd. Rwyf yn fyfyriwr Rheoli Busnes (Logisteg a Gweithrediadau) yn yr ail flwyddyn ym Mhrifysgol Caerdydd, ac mae gennyf ddiddordeb mewn dechrau gyrfa yn sector logisteg. Rwyf wedi atodi fy CV ichi ei ystyried.

Mae gen i ddiddordeb mewn gweithio yn Morgan Stanley sy'n arweinydd byd-eang ym maes bancio buddsoddi. Ers ichi gael eich sefydlu ym 1935, rydych wedi cynnig busnes rhagorol i ystod o gleientiaid a sefydliadau i'w helpu i gyflawni eu nodau ariannol. Mae eich pum gwerth craidd yn sail i ethos y cwmni ac yn cyd-fynd â'm gwerthoedd personol fy hun, er enghraifft, rhoi cleientiaid yn gyntaf a rhoi yn ôl. Yn fy swyddi rhan-amser, rwyf wedi gweld yn uniongyrchol yr effaith y mae rhoi gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid yn ei chael ar lwyddiant ac enw da cwmni. Rwyf hefyd wedi rhoi yn ôl drwy fynd yn fyfyriwr mentora, fel y gallaf gefnogi myfyrwyr eraill yr Ysgol Busnes i addasu i fywyd yn y brifysgol.

Byddwn yn frwdfrydig dros gael profiad o fod yn Ddadansoddwr Gweithrediadau Taliadau Afreolaidd, gweithio yn rhan o dimau a chael ymwybyddiaeth a gwybodaeth werthfawr am fyd busnes. Yn ystod fy astudiaethau academaidd, rwyf wedi datblygu dealltwriaeth o weithrediadau ariannol, rheoli risg a chyfathrebu â chleientiaid. Mae gennyf ddiddordeb mewn newyddion busnes ac rwyf yn mynnu'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau, er enghraifft, drwy ddarllen The Economist a'r Financial Times. Rwyf yn aelod o'r Gymdeithas Busnes a Masnachu yn yr Ysgol Busnes, a thrwyddi rwyf wedi gallu datblygu fy ymwybyddiaeth o fyd busnes drwy fynd i gyflwyniadau a digwyddiadau gan gyflogwyr a chymryd rhan yn yr ystafell fasnachu.

Rwyf wedi datblygu ystod o sgiliau perthnasol y gallaf eu cynnig i'r rôl. Yn ystod fy astudiaethau academaidd ym Mhrifysgol Caerdydd, rwyf wedi datblygu sgiliau dadansoddi, datrys problemau a rheoli amser rhagorol. Rwyf wedi datblygu'r rhain o ganlyniad i astudio modiwlau craidd ac mae gennyf hefyd sgiliau Excel sylfaenol. O ganlyniad i ymgymryd ag ystod o swyddi rhan-amser, rwyf wedi datblygu fy ngallu i weithio'n rhan o dîm a sgiliau cyfathrebu effeithiol, yn ogystal â chynnig gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid mewn ystod o swyddi lletygarwch a manwerthu. Rwyf hefyd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol, megis rygbi, ac mae'r rhain wedi datblygu fy sgiliau arwain a gweithio mewn tîm. Yn ogystal, rwyf yn fyfyriwr mentora. Mae'r rôl hon wedi fy ngalluogi i ddatblygu sgiliau cyfathrebu effeithiol, yn ogystal â fy ngallu i fod yn hyblyg ac addasu i sefyllfaoedd gwahanol.

Byddwn yn gwerthfawrogi'r cyfle i ymgymryd â'r rôl hon a dod yn rhan o arweinydd byd-eang sy'n gwerthfawrogi pobl fel eu hased mwyaf ac sy'n annog diwylliant o gynhwysiant ledled y cwmni. Rwyf yn weithgar ac yn ymroddedig a byddwn yn ymdrechu i sicrhau fy mod yn defnyddio'r brwdfrydedd a'r awydd hwn er mwyn dysgu am rôl Dadansoddwr Gweithrediadau Taliadau Afreolaidd a chyfrannu at lwyddiant tîm Gweithrediadau Morgan Stanley.

Diolch ichi am roi o'ch amser i ddarllen fy CV a'm llythyr eglurhaol a gobeithiaf gael y cyfle i drafod hyn ymhellach gyda chi.

Yn gywir,

Enw